



Polisi Cenedlaethol o Seilwaith Ieithyddol Cymraeg

CICau ydy corff gwarchod annibynnol gwasanaethau GIG yng Nghymru ac rydym yn ceisio annog a galluogi aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan gweithredol yn y penderfyniadau sydd yn effeithio ar ddyluniad, datblygiad a darpariaeth gofal iechyd i'w teuluoedd a chymunedau lleol.

Mae CICau yn ceisio gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a rheoleiddiol i ddarparu'r ddolen hanfodol rhwng y rhai sydd yn cynllunio ac yn darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y rhai sydd yn ei arolygu a'i reoleiddio a'r rhai sydd yn ei ddefnyddio.

Mae CICau yn cynnal deialog parhaus gyda'r cyhoedd drwy amrediad eang o rwydweithiau cymunedol, cyswllt uniongyrchol gyda phobl ifanc, cleifion, teuluoedd a gofalwyr drwy ymholiadau, ein Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion, gweithgareddau ymweld a thrwy arolygon i'r cyhoedd ac i gleifion. Mae pob un o'r 7 CIC yng Nghymru yn cynrychioli "llais y claf" yn eu hardaloedd daearyddol eu hunain.

Mae CICau yn monitro perfformiad gwasanaethau GIG yn eu hardaloedd yn ogystal ag ymateb i ddatblygiadau a newidiadau i wasanaethau.

Mae Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) ledled Cymru yn falch eu bod wedi derbyn y ddogfen ymgynghori 'Polisi Cenedlaethol

Seilwaith Ieithyddol Cymru' ac yn falch o rannu'r sylwadau isod.

Cwestiynau:

1. Ydych chi'n cytuno gyda'r dull arfaethedig o ddatblygu polisi i gydgysylltu seilwaith ieithyddol Cymraeg yn well?

Rydym yn cytuno ac yn cefnogi'r dull arfaethedig o ddatblygu polisi i gydgysylltu seilwaith ieithyddol Cymraeg yn well. Teimlwn y bydd y cynigion yn ei gwneud yn haws i siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd yn dysgu Cymraeg fel ei gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol, mewn lleoliadau proffesiynol a chymdeithasol.

2. Pa eiriaduron neu offer ydych chi'n eu defnyddio i chwilio am eiriau Cymraeg? (Ticiwch bob un sydd yn berthasol)

Mae CICau yn defnyddio'r offer canlynol:-

- Geiriadur Prifysgol Cymru
- Ap Geiriadur Prifysgol Cymru
- Geiriadur yr Academi Saesneg-Cymraeg ar-lein
- Geiriadur yr Academi Saesneg- Cymraeg – fersiwn print
- Geiriadur Cymraeg – Saesneg Bangor – ar-lein Bangor
- Cysgeir
- Y Geiriadur Mawr
- Microsoft Translator
- Google Translate

3. Pa adnoddau terminoleg ydych chi yn eu defnyddio i chwilio am dermau Cymraeg?

Mae CICau yn defnyddio'r adnoddau canlynol:-

- BydTermCymru
- Porth Terminoleg Cenedlaethol Cymraeg
- Cysgeir

Mae gennym bryderon nad ydy geiriaduron ar-lein/papur ac offer ar-lein yn cadw i fyny gyda thueddiadau cyfredol; hyn, ynghyd a diffyg neu ddim safoni, mae tueddiad ar adegau i ddefnyddio term Saesneg er mwyn 'llenwi'r bylchau yng ngeirfa'r iaith'. Mae hyn yn neilltuol o gyffredin mewn meysydd fel iechyd, gofal sylfaenol ac eilaidd a gofal cymdeithasol.

4. Pe byddem yn datblygu gwefan i ddarparu amrywiol adnoddau ieithyddol mewn un lle, ac eithrio'r hyn rydym wedi ei nodi ym maes 5 yn y ddogfen ymgynghori, beth arall hoffech chi weld y wefan yn ei wneud?

Teimlwn y byddai cynnig rhwydwaith 'gefnogi' yn fuddiol i siaradwyr Cymraeg ac i'r rhai sydd yn dysgu'r iaith; er enghraifft, pan mae bwrdd iechyd yn datblygu pwyllgor/gwasanaeth/adran/prosiectau newydd, oherwydd nad oes offer cyfeirio perthnasol mae gwahanol fyrddau iechyd yn defnyddio cyfieithiadau gwahanol am yr un gair/ymadrodd.

Rydym yn gofyn am roi ystyriaeth i greu/datblygu tudalen 'helpwch fi'.

4b. Pe byddem yn datblygu gwefan i ddarparu amrywiol adnoddau ieithyddol mewn un lle, o dan ba amgylchiadau fyddech chi'n defnyddio'r wefan?

Teimlwn y byddai datblygu'r wefan i ddarparu amrywiol adnoddau ieithyddol mewn un lle yn gymorth gyda'r canlynol:

- Cyfieithu
- Cadw'i fyny gyda thueddiadau, cadw'r iaith yn fyw ac yn 'ffresh'
- Fe fyddai'n darparu cymorth/pwynt cyfeirio amhrisiadwy i siaradwyr Cymraeg o bob lefel

5a. Mae'r polisi drafft yma yn nodi ein cynigion i gydgysylltu holl elfennau seilwaith ieithyddol Cymraeg yn well. A fydd yr hyn a gynigiwn yn ein galluogi i wneud hyn?

Rydym yn cefnogi'r cynigion sydd yn y polisi drafft i gydgysylltu holl elfennau seilwaith ieithyddol Cymraeg yn well ond hoffem dderbyn sicrwydd y bydd adnoddau a chyllid cywir ar ei gyfer

5b Mae'r polisi drafft yma yn nodi ein cynigion i gydgysylltu holl elfennau seilwaith ieithyddol Cymraeg yn well. Oes unrhyw beth ar goll yn y polisi drafft?

Rydym yn cefnogi'r cynigion i gydgysylltu holl elfennau seilwaith ieithyddol Cymraeg yn well, ac yn awgrymu bod aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru yn rhan o'r Panel Safoni'r Gymraeg.

Credwn y byddai gwybodaeth bellach ac/neu Gylch Gwaith drafft wedi bod o gymorth yn y trafodaethau ar yr ymgynghoriad hwn

5c Mae'r polisi drafft yma yn nodi ein cynigion i gydgysylltu holl elfennau seilwaith ieithyddol Cymraeg yn well. A ddylem ddilyn llwybr gwahanol mewn perthynas â rhai o'r meysydd hyn?

Cytunwn gyda'r cynigion fel a nodwyd; awgrymwn adolygiadau hyblyg ar ôl cyfnod o 2 flynedd i sicrhau eu bod yn gweithio a bod aelodaeth y panel yn berthnasol

6 Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai gan y cynigion yn y polisi drafft hwn ar seilwaith ieithyddol Cymraeg ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i. Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- ii. Trin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg.**

Pa effeithiau ydych chi'n feddwl fyddai yna? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol ?

Lle mae'r Saesneg dros y blynyddoedd diweddar wedi dod yn 'haws ei defnyddio', mae Cymru wedi bod yn araf i ddilyn yn hyn

o beth. Fe fyddai dull llai ffurfiol o ddarparu gwasanaethau fel iechyd a gofal cymdeithasol yn annog rhoddwyr gofal a chleifion i ddechrau sgysiau yn Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd yn y gweithle ac mewn bywyd beunyddiol. Fe fyddai pobl sydd yn dysgu Cymraeg hefyd yn teimlo'n llai swil.

Credwn bod hyn yn gyfle i adeiladu ar waith

Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol', a gyhoeddwyd yn 2016.

Nod y fframwaith oedd sicrhau bod cyrff yn cydnabod bod iaith yn rhan cynhenid o ofal a bod pobl sydd angen gwasanaethau yn Gymraeg yn cael eu cynnig nhw.

7. Esboniwch hefyd os gwelwch yn dda sut yr ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig fel ei fod yn cael:

- i. Effeithiau cadarnhaol neu gynnydd yn yr effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg**
- ii. Dim effeithiau niweidiol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.**


Cefnogwn y polisi arfaethedig yn llwyr.

8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthynol nad ydym wedi eu trafod yn benodol, defnyddiwch y gofod yma os gwelwch yn dda i adrodd arnyn nhw.

Rydym yn croesawu cyflwyniad Panel Safoni'r Iaith Gymraeg, ond fe fyddem yn croesawu eglurder hefyd ar rôl a chylch gwaith y panel.

Rydym hefyd yn gofyn am wybodaeth ynghylch sut y bydd y wefan, unwaith y cytunir arni, yn cael ei chyflwyno a sut y bydd y cyhoedd a chyrrff yn derbyn diweddariadau/newidiadau, a thrwy pa gyfrwng ac/neu sianeli.

Manylion cyswilt Bwrdd CICau



Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng
Nghymru
33 / 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB



02920 235 558



@waleschc.org.uk



www.communityhealthcouncils.org.uk



@CHC_Wales